

Defnyddio'r gwaethaf a all ddigwydd

“Dyma'r rheswm, yn wir, fy mod yn dioddef yn awr. Ond nid oes arnaf gywilydd o'r peth, oherwydd mi a wn pwy yr wyf wedi ymddiried ynndo.” (adn. 12)

Beth am ddarllen 2 Timotheus 1:8–12 ac yna myfyrio

Yn ei esboniad ar 2 Pedr, fe ddywed William Barclay fod y gair Groeg *hupomone* sydd yn cael ei gyfieithu yma fel ‘dyfalbarhad’ yn golygu y cydnabod dewr yna fod popeth y gall ein bywyd daflu atom yn gam tuag at aeddfedrwydd ysbrydol. Pan fyddwn ni yn medru cymryd y gwaethaf a’i ddefnyddio i ddyfnhau ein ffydd, yna y mae dyfalbarhad yn peidio â bod yn anhawster. Yr ydym yn gwybod fod yna reswm da dros gadw i fynd. Does yna ddim poen, dim dioddefaint, dim rhwystredigaeth, dim siom, na allwn ni ei ddefnyddio er lles ein henaid. Mae’r sicrwydd gennym y medrwn naill ai gael rhyddhad neu ein cyfoethogi drwyddo.

Mae Cristnogaeth yn rhagori yn hyn o beth. Yn ôl yr awdur at yr Hebreaid, fe ddywedir hyn am Iesu: “Oherwydd y gogoniant a osodwyd o’i flaen fe ddiodeffodd y groes gan wawdio’r gwarth.” Dyna yw *hupomone*, dyfalbarhad sydd yn cael ei gadarnhau hefo’r wybodaeth fod y diwedd am ddwyn gogoniant a llawenydd. Nid mater o edrych yn ôl ond edrych ymlaen yw hyn. Yr wyf wedi dweud droeon fod Cristnogion yn debyg i fagiau te. Nid ydym o fawr werth nes y byddwn wedi cael ein rhoi mewn dŵr poeth. Mae’r dioddefaint a’r anawsterau sydd yn dod i’n rhan yn dyfnhau ein cymeriad ac yn cael eu defnyddio gan yr Arglwydd wrth iddo dacluso ac wrth iddo docio’r pethau hynny yn ein bywyd sydd yn peri tramgwydd inni ar ein pererindod ysbrydol. Darllenas hyn mewn llythyr ychydig cyn i mi ddechrau ysgrifennu y ddalen yma ac yr oeddwn yn teimlo ei fod yn gyfraniad cymwys: “Mae’r dioddefwr yn cael ei achub trwy ddiodeffaint, ond dim ond os yw yn ei ddefnyddio’n briodol.”

Mae Hindŵaeth a Bwdiaeth yn ceisio esbonio popeth sydd yn digwydd ond yn gadael popeth fel ag yr oedd. Nid yw Cristnogaeth ond yn esbonio’r hyn sydd angen inni ei wybod, ond mae’n gwneud popeth yn wahanol ac yn newydd.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Gen. 37:12–36; 50:15–21; Rhuf. 8:28–39

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam nad oes angen inni ofni’r gwaethaf?
2. Sut fu i Dduw ddefnyddio treialon Joseff er budd?

Gweddi

O Dad, rwyf mor ddiolchgar fod Cristnogaeth nid yn unig yn ateb geiriol, ond yn ateb grymus. Medraf wynebu beth bynnag a ddaw i’m rhan. Gallaf ddefnyddio’r cyfan er budd fy enaid. Arglwydd, cynorthwya fi i adnabod dy law mewn rhagluniaeth. Yn enw Iesu. Amen.